



Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCCLLL@Cynulliad.cymru

19/6/2015

Annwyl Glerc

Ymgynghoriad ar y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

1. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i roi sylw ar Fil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Mae'r sylwadau isod yn ymwneud yn benodol ag egwyddorion y Bil mewn perthynas ag enwau nodweddion ffisegol gweithgarwch dynol yng Nghymru. Yn benodol gofynnir am y canlynol:
 - Dylai enw nodweddion ffisegol gweithgarwch dynol fod yn rheswm dros ddiogelu'r nodwedd yn yr amgylchedd hanesyddol, a thrwy hynny ddiogelu enw'r nodwedd. Yn hynny o beth dylai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol gynnwys manylion pob ardal neu safle neu fan arall yn ardal yr awdurdod y mae ei enw o ddiddordeb hanesyddol a diwylliannol.
 - Dylai'r canllawiau a ddyroddir gan Lywodraeth Cymru ar gyflawni'r dyletswydd i greu cofnod amgylchedd hanesyddol gynnwys canllawiau penodol ynghylch enwau'r nodweddion ac iaith y cofnodion.
 - Dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori ag arbenigwyr ar orgraff ac enwau lleoedd cyn dyroddi'r canllawiau.
 - Dylai'r Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru gynnwys arbenigedd ym maes enwau lleoedd.
 - Dylai'r Pwyllgor ystyried a oes dulliau o warchod enwau lleoedd unai drwy ddiwygio cwmpas y Bil neu gyflwyno dulliau neu ddeddfwriaeth bellach.
2. Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith; ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a deddfwriaethol. Felly un o brif swyddogaethau'r Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r newidiadau arfaethedig hyn effeithio arnynt. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol neu Lywodraeth Cymru yn unol â darpariaethau'r Mesur.

3. Gweithgarwch y Comisiynydd yn y maes enwau lleoedd

Mae *iaith fyw: iaith byw Strategaeth y Gymraeg 2012-17* Llywodraeth Cymru yn nodi bod gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldeb dros gydgyssylltu datblygiadau ym maes enwau lleoedd Cymraeg. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldeb hefyd i gynnig cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Etifeddwyd y cyfrifoldeb hwn pan ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2012. Nid oes gan y Comisiynydd bwerau statudol yn y maes ac nid oes grym cyfreithiol i'r cyngor na'r argymhellion ond darperir argymhellion i asiantaethau o bob math, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar ffurfiau safonol enwau lleoedd. Mae gan y Comisiynydd banel o arbenigwyr sef y Panel Safoni Enwau Lleoedd sy'n cefnogi gwaith y Comisiynydd yn argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd. Mae gwaith y Comisiynydd yn y maes enwau lleoedd yn canolbwyntio ar enwau aneddiadau (trefi, pentrefi ayb.) yn hytrach nag ar enwau tirweddol neu enwau nodweddion ffisegol gweithgarwch dynol megis adeiladau ayb.

4. Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) – diffiniad o heneb (adran 22)

Nodir yn adran 528 memorandwm esboniadol Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) mai 'ffocws Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yw gwarchod a rheoli'n gynaliadwy olion ffisegol gweithgarwch dynol ar safleoedd hanesyddol yn y gorffennol – gan gynnwys safleoedd archaeolegol, henebion ac adeiladau hanesyddol'. Nodir hefyd fod 'gwarchod enwau lleoedd y tu hwnt i gwmpas y Bil hwn.' Er mai ffocws gwaith y Comisiynydd yw enwau aneddiadau fel yr eglurir uchod, cynigir sylwadau yn y fan hon ar berthynas enwau ag olion ffisegol gweithgarwch dynol ar safleoedd hanesyddol yn y gorffennol.



Mae cryn bryder mewn sawl cymuned yng Nghymru fod enwau tai ac adeiladau hanesyddol sy'n enwau sydd cyn hyned â'r adeiladau eu hunain yn cael eu newid. Gall ystyr a tharddiad enw nodwedd yn yr amgylchedd hanesyddol ddadlennu llawer amdano gan gynnwys ei darddiad hanesyddol; y defnydd hanesyddol a wneid ohono; y sawl a oedd yn byw ynddo; ei wneuthuriad ayb. Mae i hyn ei oblygiadau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol oherwydd mae enwau nodweddion ffisegol gweithgarwch dynol, gymaint â'r nodweddion eu hunain, yn rhan o 'etifeddiaeth ein gwlad [...] yn werthfawr iawn ac [...] yn rhan o'n diwylliant a'n hunaniaeth genedlaethol gan [...] greu syniad o le, syniad o berthyn' fel y nodir yn adran 6 memorandwm esboniadol y Bil. Yn wir gellid dadlau fod y perygl a'r risg sydd i barhad rhai o'r enwau hyn yr un mor fyw â'r risg sydd i barhad yr amgylchedd hanesyddol ei hun mewn rhai achosion. Mae gwerth diwylliannol a hanesyddol i enwau'r nodweddion yn yr amgylchedd hanesyddol oherwydd eu bod yn rhoi eglurhad o ymwneud pobl â lle.

Yn hyn o beth mae Adran 22 y Bil yn ymestyn y diffiniad o heneb restredig yn Neddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 i gynnwys 'unrhyw beth, neu grŵp o bethau, sy'n dystiolaeth o weithgaredd dynol yn y gorffennol'. Mae enw nodwedd o ran ei ystyr a'i darddiad yn dystiolaeth o weithgaredd dynol yn y gorffennol. Er y nodir yn y Memorandwm Esboniadol nad yw gwarchod enwau lleoedd o fewn cwmpas y Bil hwn mae'n drueni nad oes bwriad gwneud hynny yn y Bil. Gellid gwneud hynny er enghraifft drwy ddynodi henebion oherwydd gwerth eu henwau fel tystiolaeth o weithgaredd dynol yn y gorffennol, neu drwy gynnal cofrestr o enwau sydd o werth hanesyddol, yn yr un modd ag y bwriedir cynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol (adran 18). Gofynnaf i'r Pwyllgor felly ystyried dulliau o warchod enwau lleoedd, boed hynny drwy ddiwygio cwmpas y Bil hwn neu gyflwyno dulliau neu ddeddfwriaeth bellach.

5. Cofnodion amgylchedd hanesyddol (Rhan 4, 33 y Bil)

Mae Rhan 4 y Bil yn ymdrin â'r gofyn i 'bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru greu cofnod amgylchedd hanesyddol a'i gadw'n gyfredol'. Mae adran 33 (h) y Bil yn nodi bod rhaid i'r cofnod amgylchedd hanesyddol gynnwys 'manyion pob ardal neu safle neu fan arall yn ardal yr awdurdod sydd o ddiddordeb hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol ym marn yr awdurdod.' Mae fersiwn drafft o'r canllawiau hyn ar gael i'w hystyried ar y cyd â'r Bil hwn. Rwy'n nodi fod y canllawiau yn egluro y gallai cyswllt ag enw lle olygu y cynhwysir nodwedd yn y cofnod amgylchedd hanesyddol. Gofynnaf ichi felly roi ystyriaeth i gynnwys diffiniad penodol yn y Bil sy'n nodi y dylai'r cofnod amgylchedd hanesyddol gynnwys manylion pob ardal neu safle neu fan yn ardal yr awdurdod sydd 'o ddiddordeb toponymegol', neu y mae ei enw 'o ddiddordeb hanesyddol a diwylliannol'.

6. Canllawiau (Rhan 4, 36 y Bil)

Yn adran 36 y Bil manylir ar y canllawiau a ddyroddir gan Lywodraeth Cymru ar gyflawni'r dyletswydd i greu cofnod amgylchedd hanesyddol. Dylai'r canllawiau hyn nodi yn benodol bod angen i gynnwys y cofnodion fod yn ddwyieithog ac o'r un ansawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'r gofynion a fydd ar awdurdodau lleol yn unol â safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Gofynnaf i'r canllawiau hefyd gynnwys yr angen i roi sylw dyladwy i gywirdeb orgraffyddol a tharddiad enwau'r nodweddion amgylcheddol a gofnodir yn y cofnodion hyn gan gofnodi'r enw Cymraeg neu Saesneg yn unig neu'r enw yn y ddwy iaith¹ os yw'n bodoli. Maent yn gofnodion cyhoeddus, ac i'r perwyl hwnnw dylent nid yn unig fod yn gywir o safbwynt hanesyddol, ond hefyd o safbwynt ieithyddol er mwyn osgoi unrhyw amwyster. Argymhellaf yn hyn o beth y dylai'r canllawiau gynnwys yr angen i ymgynghori ag arbenigwyr ieithyddol ac enwau lleoedd wrth lunio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Mae'r canllawiau drafft a gyhoeddwyd hefyd yn ymdrin â thechnoleg gwybodaeth yng nghyd-destun mynediad cyhoeddus a safonau data y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Yn y fan hon, dylai'r canllawiau dynnu sylw penodol at yr angen i gynnal a rhannu data dwyieithog a darparu gwasanaethau ar-lein dwyieithog yn unol â safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae canllaw anstatudol ar ystyried y Gymraeg ac anghenion dwyieithrwydd mewn technoleg, gwefannau a meddalwedd ar gael ar wefan y Comisiynydd².

Gofynnaf hefyd i'r canllawiau nodi na ddylai perchnogion y nodweddion ffisegol a gofnodir newid enwau'r nodweddion ffisegol oherwydd bod eu henwau a'u tarddiad yn rhan annatod o'r nodweddion.

Nodir yn 36 (3) (b) yr angen i Weinidogion Cymru ymgynghori 'ag unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru' cyn dyroddi'r canllawiau. Yn hyn o beth argymhellaf y dylai'r personau hyn gynnwys arbenigwyr ar enwau lleoedd ac orgraff y Gymraeg.

7. Y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru (Rhan 4, 37)

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru sydd â'r diben o roi 'cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â llunio, datblygu a gweithredu polisi a strategaeth mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.' Fel y nodwyd uchod mae enwau nodweddion ffisegol yn rhoi gwerth diwylliannol a hanesyddol i'r nodweddion eu hunain ac mae tarddiad ac orgraff y nodweddion hyn yn faterion hollbwysig mewn perthynas â llunio, datblygu a gweithredu polisi a strategaeth yr amgylchedd hanesyddol. O'r herwydd dylai'r panel roi sylw dyladwy i'r angen i amddiffyn enwau'r amgylchedd hanesyddol. Er mwyn galluogi hynny dylai'r Panel ymgynghori ag arbenigwyr yn y maes enwau lleoedd wrth lunio ei raglen waith ac yn ddefnyddol fe ddylai gynnwys o leiaf un aelod sydd ag arbenigedd yn y maes.

- Deallaf nad diben y Bil hwn yw gwarchod enwau lleoedd, enwau tirweddol nac enwau nodweddion ffisegol gweithgarwch dynol Cymru. Rwyf, er hynny, o'r farn fod angen amddiffyn yr enwau hyn cymaint ag y bo modd oherwydd eu pwysigrwydd diwylliannol,

¹ Bydd enwau nodweddion ffisegol gweithgarwch dynol unai yn Gymraeg yn unig (y mwyafrif), yn Saesneg yn unig neu mewn rhai achosion prin yn ddwyieithog. Ni raid iddynt fod yn ddwyieithog os mai enwau uniaith ydynt.

² *Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg*,

<http://www.comisiynyddygybraeg.org/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Technoleg%2c%20Gwefannau%20a%20Meddalwedd%20-%20Technology%2c%20Websites%20and%20Software.pdf> (cyrchwyd 17 Mehefin 2015)



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

hanesyddol a chymunedol. Rwyf o'r farn y byddai'r gwelliannau yr wyf yn eu hargymell uchod yn cydnabod pwysigrwydd hanesyddol enwau'r nodweddion ffisegol o weithgarwch dynol hyn ac yn cydnabod y dylai'r enw ei hun fod yn rheswm dros amddiffyn y nodwedd a thrwy hynny ddiogelu ei enw. Os nad yw'r Pwyllgor o'r farn y dylid derbyn yr argymhellion hyn gofynnaf iddo ystyried a yw o'r farn bod angen gwarchod enwau lleoedd Cymru a sut y byddai'n gwneud hynny.

Diolch yn fawr iawn ichi am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ichi ynghylch Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg